

# Cyngor Cymuned Pentir

Cofnodion Cyngor llawn gynhaliwyd Nos Fercher 14<sup>eg</sup> o Fedi 2017 yn Parc Menai am 7pm

## Presennol:

Y Cyng. R Jones. D W Jones. R G. Roberts , H Griffiths, B Jones, T Anwyl-Williams  
E Jones (Clerc )

## Ymddiheuriadau:

Y Cyng, D Jones-Morris, L James, C Hughes, M Baines ag J Pierce,

## Cadeirwyd gan Cyng Richard Jones ac offrymwyd gweddi gan Cyng Dewi W Jones.

Cyfethol - Sedd Wag yn Ward Glasinfryn/Pentir

Esbonwyd yn dilyn hysbysebu drwy bosteri yn ei hysbysfyrddau am ddwy wythnos mae un enw yn unig ddaeth ymlaen i'r Clerc sef Mr James Griffiths Penybryn Waen Wen oedd wedi traelio blynyddoedd lawer fel aelod ar Cyngor Pentir.

Cynnigwyd ein bod yn ei gyfethol gan y Cyng Richard Gwynedd a Cyng Tudur Anwyl Williams yn eilio. Derbynnwyd y cynnig yn unfrydol, a bydd gwahoddiad yn mynd allan iddo fynychu ein Cyngor Llawn nesaf ar y 12fed o Hydref

## Derbyn cofnodion Mis Gorffennaf

Derbynwyd y cofnodion fel cofnod cywir. Cyng D W Jones yn cynnig a Cyng Richard G Roberts yn eilio.

## Materion yn codi o'r cofnodion

1. Torri gwair – y Clerc wedi cysylltu a swyddogion Cyngor sir ynglyn a'n cytundeb i dalu am 4 toriad a'r gordyfiant ond heb gael dim ymateb yn ol
2. Hysbysfwrdd Ysb Gwynedd Cais/Caniatad ar ffurf llythyr drwy law Cyng Dafydd Jones-Morris
3. Cysgodfannau Bws Goleufryn a safle bws Cae Garnedd  
Is-Bwyllgor Asedau i'w trafod ymhellach.
4. Bocsus Bloda  
Clerc wedi holi Suzanna Winfield am esboniad a bosib mae planhigion ifanc blawyd.  
Pawb yn cadarnhau fod y lliwiau wedi cyrraedd erbyn Mis Awst

## Adroddiad Is-bwyllgor Cyllid

Darllenwyd cofnodion yr Is Bwyllgor Cyllid 30ain o Awst 2017

Adroddiad Cwmni BDO yn amlinnellu yr angen am esboniad ar un neu ddau o bwyntiau i allu cwblhau eu archwiliad.

## Y Clerc wedi gweithredu ar hynny yn barod

Cwmni BDO hefyd yn adrodd

***Nid yw'r Cyngor Cymuned yn gweithredu gwefan sy'n cynnwys yr wybodaeth sy'n angenrheidiol yn ôl Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013. Ar hyn o bryd mae'n defnyddio ei brif awdurdod i letya safle ond nid yw'r safle hwn yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol.***

*Dan y Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013, adran 55*

*Rhaid i gyngor cymuned ddarparu gwybodaeth electronig ar sut i gysylltu â'r cyngor ac, os yn wahanol, sut i gysylltu â'r cler.*

Cais am Rodd Ad 137 gan Glwb Peldroed Iau Penrhosgarnedd. 'Roedd y cais yn amlinnellu eu cynlluniau tymor hir i ddatblygu eu cae a'r Maes Parcio yn Treborth.

Argymell i'r Cyngor Llawn gyfrannu **£1000.00 am fod hwn yn gynllun arbennig**

## Cymeradwywyd yr argymhelliad

Cytunwyd hefyd talu y rhestr taliadau oedd yr IBC yn argymhell eu talu

Opus Energy	£63.89	Trydan y swyddfa
Scottish Power	£47.83	Trydan y Capel
Einir A Williams	£150.00	2 Chwarter Gofalwraig
Wyn Lewis	£650.00	Torri gwair Mis Gorffennaf
Wyn Lewis	£320.00	Chwystrellu a ochri llwybrau yr hen fynwent

Wyn Lewis	£650.00	Tori gwair Awst
HMRC	£90.80	Treth Incwm Mis 6
Cyngor Gwynedd	£957.00	NDR 3 MIs
Angenion Swyddfa	£91.31	Offer swyddfa
Elwyn Jones	£362.90	Cyflog Clerc Mis 6

### Ceisiadau Cynllunio 2 gais

- Cais C17/0855/25/CC Torri a thocio coed yn Parc Menai **Dim Gwrthwynebiad**
- Cais C17/0862/25/LL Codi 2 Dy Fforddiadwy ar dir ger Bethmaca Glasinfryn  
Bu peth trafodaeth a pleidleiswyd **4 i 2 o blaid cefnogi y cais**

### Materion y Clerc

- Gohebiaethau
  - Bod yn aelod Cynulliad – e-bost wedi ei anfon at bawb
  - Cylch – llythyr i Lesley Griffiths  
Adroddwyd fod penderfyniad wedi ei wneud eisioes ynglyn a’r apel
  - Anfoneb Playsafe  
‘Roedd anfoneb Playsafe am archwyllo parc Chwarae Caerhun wedi dod i law ar ol yr IBC a cymeradwywyd talu iddynt y swm o £79.80
  - Prydles Canolfan Penrhos
    - Dim datblygiad parthed arwyddo/cytuno ar y brydles. Gamlins heb glywed dim o Adran Gyfreithiol Cyngor Gwynedd
    - Adroddodd y Cadeirydd fod Is Gadeirydd y Ganolfan wrthi yn ceisio dod Cais Cychwynnol ar gyfer y Loteri at ei gilydd
- Adroddiadau
  - Llaw-lyfr aelodau Angen sefydlu cofrestr buddiannau Cynghorwyr
  - Y Wefan Cyng Lowri James wedi cychwyn ar y gwaith i ail-sefydlu gwefan Cyngor Cymuned Pentir hefo Delwedd
  - Cysgodfan Rhyd y Groes Lleoliad wedi ei bennu angen trefnu i weld y rhai sydd gan D Williams yn Llithfaen ar ol i Gadeirydd y Cyngor ddychwelyd o’i wyliau
  - Llwybrau Gwilym Hughes wedi syrthio a torri ei goes ond wedi trefnu fod torrwr arall yn ymgymeryd a’r toriadau olaf

### Materion y Cynghorwyr

Cyng Jean Pierce a Cyng L James - Datblygiadau gwaelod Allt Faenol **Clerc i lythyru Gwynedd**  
Cyng C E Hughes - Dwr ar draws llwybr - Lon Llanarch **Clerc i wneud ymholiadau**  
Cyng R G Roberts - Llwybr Twll yn wal **trafodaethau yn parhau hefo swyddogion Gwynedd**  
- Llinella Melyn Maes Mawr **Clerc i gysylltu a Gwynedd**  
- Safle bws Cae Garnedd - gwrthwynebiad wedi ei dderbyn gan un o’r trigolion felly **ail-ystyried yn yr IBA**

Daeth y cyfarfod i ben am 9.00

Cyfarfod nesaf Nos Iau 12fed o Hydref yn y Swyddfa am 7.00